

Targedau / Targets	Sut rydych wedi gweithio ar hwn / How you have worked on this	Ceir enghraifft ar / An example can be found on
Targed 1 : Gwirio fy nhechneg cyfeirnod wrth ysgrifennu'r rhestr cyfeirnod i sicrhau cywirdeb a'r cyflwyniad o wybodaeth angenrheidiol am bob ffynhonnell	Ail-ymweld gyda Llawlyfr Cyfeirnod Harvard	Gweler y cyfeirnod trwy gydol yr aseiniad a'r rhestr cyfeirnod ar y diwedd
Targed 2 : Mireinio ar fy sgiliau syntheseisio trwy cyfuno ffynonellau sy'n cytuno â'i gilydd.	Ymgyswddo gyda chanllawiau cyfeirnod ar wefan Cite Them Right trwy gyfuno mwy nag un darn o lenyddiaeth.	Gweler enghraifft ar dudalen 3 a 5.
Targed 3 : Parhau i ddatblygu agwedd feirniadol drwyddi draw, gan gynnig y farn gyferbyniol pryd bynnag y bo modd gan ystyried goblygiadau'r hyn a ysgrifennwyd drwy ddadansoddi a gwerthuso'n feirniadol yn gyson.	Atgoffa fy hun o'r hyn sy'n ddisgwyliedig wrth ysgrifennu'n feirniadol trwy ddarllen erthyglau a thestunau gwahanol.	Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth o dudalen 2 ymlaen.

Dylunio a chynnal astudiaeth ymchwil ar raddfa fach, a gwerthuso'n feirniadol effaith offer ymchwil a ddewiswyd, a'r data, ar y dysgwr ac ar eich ymarfer proffesiynol.

Beth yw barn staff a disgyblion Blwyddyn 6 am y defnydd o gwestiynu llafar fel strategaeth asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth?

'Nad yw gofyn llawer o gwestiynau yn arwydd o ansawdd : mae'n ymwneud â'r mathau o gwestiynau, yr amser a ganiateir a'r dyfnder meddwl gan fyfyrwyr y maent yn ei ysgogi neu'n ei ennyn, a sut mae athrawon yn rhyngweithio â'r ymatebion'.

(Coe et al, 2020, t.37)

Yn unol gyda'r hyn mynegai'r dyfyniad uchod am asesu ar gyfer dysgu (AagD), cydnabyddai Estyn (2018) ei arwyddocâd tuag at alluogi disgyblion ddod yn fwy annibynnol a hyderus, datblygu sgiliau llafar a gwella eu dealltwriaeth o beth sydd angen gwneud nesaf. Nod yr astudiaeth yw edrych yn ddyfnach mewn i hyn ac yn benodol mewn i gwestiynu llafar fel strategaeth o AagD yn yr ystafell dosbarth. Nid yn unig yw AagD yn cael ei hystyried fel rhan hanfodol i'r cwricwlwm, wrth gyfeirio ei gynnwys fel un o'r egwyddorion addysgegol (Cwricwlwm i Gymru, 2023) ond caiff cwestiynu yn benodol ei gydnabod fel cydran bwysig at ddarparu cyfarwyddiadau o ansawdd uchel, meddwl strategol a'r broses dysgu yn gyffredinol (Nappi, 2017, t.30). Bwriadir defnyddio offer ymchwilio amrywiol i gynorthwyo hyn trwy gasglu barn disgyblion a staff blwyddyn 6 yn ogystal â gwerthuso'r offer eu hun gyda'r gobaith o wella ymarfer dysgu proffesiynol. Bydd hyn yn cynnwys dosbarthu holiaduron i'r disgyblion a staff, a hefyd cynnal cyfweiliadau gyda'r disgyblion, gan sicrhau i gadw agwedd moesegol parhaus. Wrth ystyried yr amrywiaeth o lenyddiaeth sydd ar gael am y nifer o agweddau edrychir arni yn yr astudiaeth, ystyrir a chydabyddir yn aml wrth weithredu. Er enghraifft ceir nifer o ymchwiliadau (Greenfield, 2011 ; Clark, 2005) yn hybu'r defnydd o'r ymagwedd Fosaig mewn astudiaethau gan felly dylanwadu ar y dewis i'w ddefnyddio. Yn ogystal, gellir cynnig y rhagdybiaeth y bydd barn gadarnhaol gan y disgyblion a staff am yr elfen o AagD dan sylw wrth gydnabod yr amrywiaeth eang o lenyddiaeth sydd i'w gael yn awgrymu arwyddocâd ei ddefnyddio.

Wrth ddiffinio asesu, trafodai Frey et al (2012) mai un o'r arferion gorau wrth ei weithredu yw ei gadw'n awthentig, gan drychweddu profiadau a thasgau bywyd go iawn. Er hyn, cydnabyddir hefyd nad oes wastad cytundeb am yr elfennau a chyfrannai at asesu effeithiol yn ogystal â'r cymysgedd o ddiffiniadau gwahanol sydd amdano. Gwelir trafodaeth debyg gan Bland a Gareis (2018), wrth iddynt nodi bod nifer o ffyrdd i labeli a diffinio'r gwaith caiff ei wneud gan ddisgyblion i arddangos eu dealltwriaeth a sgiliau. Cyfeirir at asesu perfformiad fel asesu a alluogai disgyblion i arddangos hyn ond hefyd y broses datrysir eu problemau. Wrth esbonio AagD, cyflwynai Wiliam (2011) agwedd debyg i asesu wrth gydnabod ymchwil gan y Grŵp Diwygio Asesu a chyflwynodd eu ffafrioldeb o'r term AagD dros y term asesu ffurfiannol oherwydd y nifer ormodol o ddehongliadau gwahanol sydd ar gael amdano. Fel nodai Cambridge Assessment (2019), AagD yw dull wedi ei integreiddio mewn dysgu ac addysgu a ddarparai adborth i ddisgyblion ac athrawon i wella dysgu a'u cyfeirio at y camau nesaf dylid cymryd. Ymchwil arloesol i fewn i'r dull yw gan Black a Wiliam (2010) a chynigai 4 elfen o AagD sef adborth, asesu cyfoedion a hunan-asesu, rhannu meini prawf a chwestiynu.

Bwriadir yn benodol i ffocysu ar yr elfen o gwestiynu, sy'n elfen arwyddocaol o addysgu trwy wella canlyniadau disgyblion a'r un o'r prif dechnegau gall athrawon ddefnyddio i ysgogi meddwl, dysgu a chyfranogiad disgyblion (Higgins et al, 2017 ; Hill, 2016). Awgryma hyn felly'r gefnogaeth sydd tu ôl i ddefnyddio cwestiynu yn yr ystafell ddosbarth. Ond wrth ystyried hyn, rhaid cydnabod yr ymchwiliadau a awgrymai aneffeithiolrwydd y defnydd o gwestiynau yn yr ystafell ddosbarth, megis y diffyg amser darparai rhai athrawon i ddisgyblion ateb (Flórez a Sammons, 2013,t.7). Ar ôl i Rowe (1974) ddarganfod mai ond 0.9 eiliad o amser aros darparai athrawon i ddisgyblion ateb ar ôl gofyn cwestiwn, datblygodd ac astudiodd yr effaith caiff dynodi fwy o amser i aros am ateb gan ddisgyblion. Canfuwyd sawl gwelliant mewn canlyniadau disgyblion o ganlyniad i hyn, gan gynnwys lleihad mewn disgyblion yn gwrthod ateb a chynnydd mewn hyd atebion ac atebion gan ddisgyblion ag adnabyddir yn ddysgwyr

araf gan eu hathrawon (Takayoshi a Van Ittersum, 2018). Ar ben hyn, ychwanegodd Stahl (1994) y buddion a ddaw i ymddygiad athrawon o'i wneud hefyd, gan weld mwy o amrywiaeth yn eu strategaethau cwestiynu a lleihad mewn nifer ond cynnydd mewn ansawdd eu cwestiynau trwy ofyn am brosesu gwybodaeth fwy cymhleth gan y disgyblion. Ac felly awgryma hyn os darparir digon o amser ateb i ddisgyblion, cynyddai effeithiolrwydd cwestiynau llafar yn y dosbarth.

Ceir hefyd y ddadl gan Ramsey et al (1990) am sut y cwtogai athrawon sy'n dominyddu cyfathrebu a defnyddio gormod o gwestiynau ffeithiol ar gymhelliant disgyblion. Ychwanegai Dilon (1983) at hyn, trwy awgrymu'r angen am fwy o gwestiynau agored i hybu trafodaeth ymysg y dosbarth cyfan. Gwelir hefyd cefnogaeth o gyd-destun mwy perthnasol i Gymru at yr awgrym hwn wrth ystyried argymhelliad gan Lywodraeth Cymru (2010) i ddefnyddio cwestiynau agored er mwyn creu trafodaeth, gan fod gofyn cwestiynau o safon dda gynhyrchu cyfathrebu o safon dda. Disgrifir cwestiynau agored fel cwestiynau gyda mwy nag un ateb derbyniol sy'n hybu ymhelaethu gan ddisgyblion wrth iddynt orfod darparu atebion hirach yn hytrach na rhai un gair (Cakir a Cengiz, 2016). Awgryma ymchwil gan Wasit a Hindman (2013) bod y rhyddid a'r ddarpariaeth hyn o ymestyn ar eu hatebion yn cynyddu'r tebygolrwydd o eirfa newydd yn cael ei gofio. Er i hyn awgrymu arwyddocâd i'r gofyn yn y dosbarth felly, fel cydnabyddai Aziza (2021) mewn adroddiad ar gwestiynau agored mewn gwersi mathemateg, dangosai nifer o ymchwiliadau bod diffyg defnydd ohonynt gan athrawon achos y diffyg gallu i ragfynegi a pharatoi am bob ateb posib. Ond yn dweud hynny, gwelir o'r casgliadau tynnodd o'i ymchwil bod modd goresgyn y broblem hon trwy ddarparu cefnogaeth benodol i athrawon o sut i'w defnyddio'n effeithiol. Er enghraifft trwy hybu athrawon i ofyn mwy o gwestiynau ar ôl derbyn atebion galluogai iddynt ddeall yr atebion yn well. Ar y llaw arall, rhaid tynnu sylw at agwedd dadleuol yn y casgliad am y diffyg gallu i gymhwyso'r canlyniadau at bob sefyllfa addysgol gan mai gwersi mathemateg oedd y prif ffocws, a hefyd y diffygiant mewn ystyried safbwyntiau athrawon tuag at ddefnyddio cwestiynau agored. Ac felly wrth ystyried hyn, gellir awgrymu perthnasedd i'r ymchwil dan sylw tuag at adeiladu ar y canfyddiadau o'r astudiaeth.

Wrth gynnal y gwaith ymchwil, cafodd holiaduron a chyfweliadau eu defnyddio fel yr offer ymchwil i gasglu barn y disgyblion ac athrawon am gwestiynu llafar. Gan fod dau wahanol fath o offeryn ymchwil wedi cael eu defnyddio, golygai bod ymagwedd Fosaig wedi cael ei fabwysiadu wrth weithredu. Datblygwyd yr ymagwedd hon ar ôl i astudiaethau gwahanol ddechrau defnyddio ac ymchwilio ffyrdd gwahanol o gasglu a deall safbwyntiau gwahanol blant (Greenfield, 2011). I ychwanegu, cydnabyddai Clark (2005) er y datblygwyd yr ymagwedd ar sail astudiaethau amrywiol, cyfrannodd trafodaethau gydag ymarferwyr at ei ddefnydd gan athrawon cynradd gan uwcholeio'r cysyniad bod y gwahaniaeth rhwng ymchwil a dysgu yn aneglur gan adnabod athrawon fel ymchwilwyr cyson mewn i ddatblygu dealltwriaeth am blant ac addysgu.

I fynd mewn i fanylder i'r offer ymchwil, cynhaliwyd cyfweliadau grŵp yn ystod yr astudiaeth sy'n drafodaethau wedi eu cynllunio'n ofalus er mwyn casglu safbwyntiau ar faes o ddiddordeb mewn amgylchedd gosteg a goddefol (Adler et al, 2019). Cydnabyddai Codó (2009, tud 158) cyfweliadau fel ffordd effeithiol o dderbyn darnau mwy estynedig o wybodaeth o gymharu â holiaduron tra ar yr un pryd yn nodi nad ydynt mor effeithiol yn casglu gwybodaeth fwy sensitif yn ogystal â bod yn ddull llai effeithiol o ran amser. Ar y llaw arall, mynegai Blaxter et al (2006) gwerth cyfweliadau mewn galluogi'r ddarpariaeth o wybodaeth sydd o bosib ddim yn hygyrch o ddata holiaduron.

Cynhaliwyd y cyfweliadau gyda thri grŵp o bedwar disgybl ar y tro, tu allan i'r dosbarth heb unrhyw un arall yn bresennol, gan fabwysiadu rôl na fysai oedolion o fewn yr ysgol yn draddodiadol o ymddwyn o gwmpas y plant ; megis treulio amser gyda'r disgyblion yn ystod amser egwyl ac osgoi gwisg rhy ffurfiol. O ganlyniad i hyn, lleihawyd effaith posib gall awdurdod gael ar atebion y plant (Thornberg, 2009) gan felly cynyddu'r tebygolrwydd o dderbyn atebion mwy gonest ganddynt yn y cyfweliadau (Atkinson, 2019). Er hyn rhaid cydnabod y posibilrwydd sydd o duedd yr ymchwilydd yn effeithio ar sut caiff y data ei gasglu a dehongli. Er enghraifft gall tuedd ymddangos wrth ddewis y sampl neu wrth ddehongli'r data mewn ffordd sy'n cyd-fynd gyda rhagfynegiad yr astudiaeth (Simundic, 2013). Gwelir bod y dull samplu yn unol gyda'r argymhellion hyn wrth ystyried mai ar hap dewiswyd y disgyblion o

bob grŵp gallu, ond dylid cydnabod bod posibilrwydd o duedd gan yr ymchwilydd. Cynigai Pannucci a Wilkins (2010) y gellir osgoi tuedd yr ymchwilydd yn ogystal â chynyddu'r dilysrwydd mewnol trwy ddefnyddio cyfwelydd yn anymwybodol o'r canlyniad mewn diddordeb, gan felly awgrymu sut gellir gweithredu'r astudiaeth yn wahanol petai'n cael ei ailwneud.

Dull o ganfod gwybodaeth i esbonio, disgrifio neu gymharu barn a dealltwriaeth grŵp neu unigolyn yw holiadur, a all gael ei gwblhau gyda neu heb gymorth (Fink, 2015). Gwelir cefnogaeth at ei ddefnyddio wrth gynnal ymchwil gyda phlant gan Christensen a James (2008, tud.2) a nodai nad oes o reidrwydd angen mabwysiadu dulliau hollol wahanol wrth weithio gyda nhw fel cyfranogwyr. Ychwanegai Leeuw (2011) at hyn wrth fynegi yn gyffredinol, mae aeddfedrwydd cognatif a chymdeithasol plant wedi datblygu digon erbyn eu bod yn saith oed ymlaen i'w galluogi i gymryd rhan mewn holiaduron. Darparai hyn felly cefnogaeth tuag at y defnydd o holiaduron o fewn yr astudiaeth i ddarganfod barn disgyblion blwyddyn chwech am gwestiynu llafar. Ar y llaw arall, rhaid cydnabod y problemau mewn dibynadwyedd a dilysrwydd sy'n gallu codi wrth weithio gyda phlant, megis yr anhawster o wir dibynnu yn yr hyn maent yn dweud (Morrow, 1999, tud. 210). Amlinellai Punch (2002) bod posibilrwydd o blant yn dweud celwydd mewn astudiaethau oherwydd ofn neu gywilydd, mewn ymgais i greu argraff dda neu i ddweud beth gredir mai'r ymchwilydd eisiau clywed. Ond wrth ddweud hyn, cydnabyddir fod hyn yn broblem all godi wrth weithio gydag oedolion hefyd gan awgrymu'r angen i fod yn ymwybodol o hyn wrth ddadansoddi canlyniadau'r astudiaeth.

Trafodai Silvia a Cotter (2021) ffactorau i'w hystried wrth weithredu holiaduron gan gynnwys ceisio i ond eu dosbarthu yn ystod amseroedd cyfleus ac osgoi eu gwneud yn rhy hir gan fod cymhelliant cyfranogwyr i ateb yn gostwng. Gweithredwyd yr holiaduron yn yr astudiaeth yn unol gyda'r argymhellion hyn wrth ystyried darparwyd rhyddid i'r disgyblion ddewis o fewn amser penodol pryd i'r cwblhau ac fel gwelir o atodiad 2, dim ond chwe chwestiwn oedd i'w hateb. Ac felly unwaith eto awgrymai hyn cefnogaeth tuag at sut gweithredwyd yr holiadur.

Er hyn, ceir peth beirniadaeth tuag at y ffordd gweithredwyd yr astudiaeth wrth ystyried maint y sampl, gydag ond deuddeg disgybl ac un athrawes yn cymryd rhan. Mynegai Ponto (2015) pwysigrwydd sicrhau sampl mawr er mwyn sicrhau canlyniadau cynrychioladwy a all gael eu cymhwyso at y boblogaeth bwriadwyd; er enghraifft sonnir am yr ystyriaeth tuag at ryw a lleoliadau gwahanol. Yn ychwanegol, fel dadleuai Omair (2014), gall y cyfranogwyr sy'n fodlon cymryd rhan fod yn wahanol i'r rhai sy'n anfodlon, gan olygu diffyg cynrychiolaeth yn y canlyniadau a'r gallu i'w cymhwyso at bawb. Ac felly er i'r sampl gynnwys peth amrywiaeth, awgrymir bod lle i wella dilysrwydd yr astudiaeth trwy geisio ei gynnal gyda sampl mwy cynrychioladwy. Wrth drafod dilysrwydd yr astudiaeth, gellir hefyd ystyried awgrym gan Sürücü a Maslakci (2020) i ailadrodd yr astudiaeth ar adeg wahanol i'r un grŵp o gyfranogwyr. Trwy wneud hyn nodir gellir sicrhau fod cysondeb yn y canlyniadau gan ddarparu mwy o dystiolaeth ac felly dibynadwyedd iddynt.

O ran casglu data, gellir gweld o'r cwestiynau (gwelir atodiadau 2 i 4) y darparai rhai cwestiynau ddata enwol gan nad oes modd eu trefnu tra bod rhai yn darparu data trefnol wrth ofyn i'r cyfranogwyr raddio ar sail barn (Rowley, 2014). Wrth gynllunio'r amrywiaeth o fathau gwahanol o gwestiynau yn yr holiadur dilynwyd argymhellion gan Blaxter (2006, tud 182) o sut i eirio a strwythuro. Er enghraifft argymhellir i osgoi gofyn gormod o gwestiynau agored i leihau'r amser treulir gan y cyfranogwr yn ateb ond hefyd yr ymchwilydd yn dadansoddi, yn ogystal â ddim gofyn cwestiynau sy'n awgrymu ateb penodol er mwyn caniatáu'r derbyniad o bob ateb posib. Ond wrth drafod hyn, dylid hefyd cydnabod y diffyg sicrwydd mewn gwybod faint roedd y cyfranogwyr yn deall y cwestiynau gofynnwyd yn yr holiadur. Trwy gynnal cynbrawf gyda grŵp bach o gyfranogwyr gellir ei ddefnyddio fel cyfle i sicrhau eu bod yn deall y cwestiynau, ac os oedd problemau'n codi, yna gellir eu haddasu (Leeuw et al, 2008, tud. 5). Ar ben hyn, yn debyg i argymhellion Baxter (2006, tud. 182) bysai hyn yn ffordd o sicrhau nad yw'r cwestiynau wedi eu strwythuro mewn ffordd sy'n dylanwadu ar atebion y cyfranogwyr (Wolf et al, 2016, tud. 101).

Ystyriwyd materion moesegol wrth gwblhau ffurflen foeseg (gweler atodiad 7) cyn yr ymchwil ble gwelwyd yr holl ddeunyddiau moesegol mewnol ac allanol defnyddiwyd. Er

enghraifft meddiannwyd agwedd moesegol cyson wrth weithredu'r ymchwil, gan gadw at ganllawiau BERA (2018) o sicrhau fod unrhyw ymchwil addysgiadol yn ddiogel, moesegol a cyfiawnadwy. Yn unol gyda'r canllawiau yw'r dosbarthiad o lythyr ganiatâd (gweler atodiad 6b) yn hysbysu i rieni neu warcheidwaid y rhesymau tu ôl i'r astudiaeth a'r gallu iddynt ddarparu cydsyniad gwybodus neu gais i ddim cymryd rhan yn yr astudiaeth ar ran eu plentyn. Gan nad yw'r cyfranogwyr o'r oedran i allu gwneud y penderfyniad ac felly darparu cydsyniad i gymryd rhan, rhaid ei dderbyn gan y rheini neu warcheidwaid (Nijhawan et al, 2013). Yn ogystal â hyn, sicrhawyd preifatrwydd a chyfrinachedd y cyfranogwyr trwy osgoi cofnodi a chysylltu eu henwau gyda'r data, megis trwy gyfeirio atynt fel 'Grŵp 1' (gweler atodiad 5) a hysbysu ar ddechrau'r holiaduron (gweler atodiadau 1 a 3) a chyfweliadau eu bod yn ddienw a hollol gyfrinachol (BERA, 2018 ; Pinter a Kuchah, 2021). Yn gysylltiedig, hysbyswyd i'r cyfranogwyr cyn dosbarthu'r holiaduron a chynnal y cyfweliadau am eu hawl i wrthod cymryd rhan neu dynnu nôl ar unrhyw adeg (BERA, 2018).

Yn ôl Samuels (2020) data meintiol yw gwybodaeth ffeithiol yn ymwneud â rhifau a chategoriau, sy'n dueddol o ddeillio o gwestiynau a ofynnai i ddewis rhwng opsiynau gwahanol neu wrth raddio barn. Yn ogystal, nodir yr arweiniai dri math sylfaenol o ddata, gyda dau ohonyn nhw yn ddata enwol a threfnol sydd i'w gweld o ganlyniadau'r astudiaeth (Rowley, 2014). Yn fanylach felly, gellir gweld enghraifft o ddata meintiol (gweler atodiad 2c a 2d) o fewn y canlyniadau wrth gydnabod y sgorau cyfartalog ar gyfer y cwestiynau a ofynnai am farn y disgyblion am gwestiynu llafar. Yn ogystal wrth edrych ar y siartiau bar (gweler atodiad 2ch a 4f) i gynrychioli sawl strategaeth cwestiynu defnyddia'r athrawes, derbynnir data enwol gan nad oes modd eu trefnu (Samuels, 2020).

Wrth ystyried beth olygai'r data hyn, darganfuwyd cydberthynas rhwng canlyniadau'r holiaduron mewn nifer o agweddau. Pwrpas y cwestiynau oedd casglu gymaint o wybodaeth a phosib am eu barn o'r defnydd o gwestiynu llafar fel strategaeth o AagD yn cael ei ddefnyddio yn y dosbarth. Wrth edrych ar y graff bar (atodiad, 2d) gwelir ymateb cadarnhaol gan y disgyblion pan ofynnir i raddio allan o bump faint mae cael eu gofyn cwestiynau llafar yn eu helpu i ddysgu. Ar gyfartaledd, darparwyd sgôr cyfartalog o bedwar allan o bump, sy'n unol â'r ateb rhoddodd yr athrawes i'r un cwestiwn, wrth iddi gytuno'n gryf bod gofyn cwestiynau llafar yn helpu'r disgyblion i ddysgu (gweler atodiad 4e). Gellir cysylltu hyn â chanlyniadau astudiaeth Hill (2016) sef y cyfrannai'r dechneg at ysgogi meddwl, dysgu a chyfranogiad disgyblion. Yn ôl Fabrigar a Wegener (2015), darparai hyn ddilysrwydd i'r ddadl dros effeithiolrwydd cwestiynau llafar yn y dosbarth am iddo brofi bod y canfyddiadau cadarnhaol yn atgynrchadwy. Mae'n bosib felly bod y canlyniadau hyn yn darparu cefnogaeth bellach i'r rhagdybiaeth bod disgyblion a staff yn dal barn gadarnhaol am arwyddocâd cwestiynau llafar o fewn y dosbarth.

Yn ogystal, mae data ansoddol yn gallu bod yn anodd i fesur a dadansoddi'n fanwl, gyda'r angen i adnabod patrymau o fewn darnau ysgrifenedig disgrifiadol trwy gategoreiddio'r data gan ddefnyddio codio (Coleg Macalaster, 2023). Ond wrth edrych ar ganlyniadau'r holiadur a chyfweliad, gwelir patrwm o fewn y rheswm pam nad oes gan rai disgyblion unrhyw argymhellion tuag at newid y ffordd mae eu hathrawes yn gofyn cwestiynau llafar iddynt. Nododd un unigolyn o fewn yr holiadur bod yr athrawes yn dangos parch at y dosbarth, sy'n unol gyda'r hyn dywedodd grwpiau un a dau (gweler atodiad 5c a 5d) am agwedd parchus yr athrawes tuag atynt. Atgyfnerthir y ddadl gadarnhaol hyn wrth ystyried atebion cadarnhaol y mwyafrif o gyfranogwyr i gwestiynau agored (gweler atodiadau 4 a 5). Derbyniwyd data ansoddol o ganlyniadau'r cwestiynau hyn, sy'n ddata a gasglwyd fel arfer o gyfweliadau a holiaduron (Coleg Macalester, 2023). Er enghraifft ymhelaethodd yr athrawes ar ei hateb i gwestiwn am os oes adeg benodol gofynnai cwestiynau llafar wrth iddi nodi 'heb llafar o safon, ni fydd safon i'r ysgrifennu' (gweler atodiad 4c). Awgryma hyn eto felly barn gadarnhaol am y defnydd o gwestiynu llafar yn y dosbarth wrth iddi bwysleisio pwysigrwydd datblygu sgiliau llafar ym mhob gwers. Fodd bynnag, r derbyniwyd tystiolaeth dderbyniol o hyn, ni ofynnwyd gormod o gwestiynau agored o fewn yr holiadur, gan unwaith eto cydnabod argymhelliad Blaxter (2006, tud. 12) er mwyn arbed amser cyfranogwyr ac ymchwilwyr.

Fodd bynnag dylid cydnabod bod ambell i argymhelliad wedi codi gan y disgyblion yn yr holiadur a chyfweliadau, gan awgrymu peth anghytundeb gyda'r defnydd o gwestiynu yn y

dosbarth, gyda rhai yn amlinellu problemau mewn hyder wrth siarad o flaen y dosbarth ac eraill yn dymuno i ddim cael eu cwestiynu pan maent yn deall y gwaith. Awgryma hyn felly barn wrthgyferbyniol i'r rhagdybiaeth bod gan ddisgyblion barn gadarnhaol tuag at y dull. Ar y llaw arall, gwelir ei fod yn mynd yn erbyn safbwynt beirniadol Codó (2009, tud 158) am aneffeithiolrwydd y defnydd o gyfweiliadau wrth gasglu gwybodaeth sensitif gan fod y disgyblion wedi rhannu barn feirniadol tuag at eu hathrawes. Yn ogystal â darparu peth gefnogaeth at ddilysrwydd yr astudiaeth gan awgrymu gonestrwydd a diffyg tuedd ymchwilydd wrth gasglu atebion a aiff yn groes i'r rhagdybiaeth (Simundic, 2013). Ac felly er derbyniwyd peth dystiolaeth negyddol tuag at gwestiynu llafar, derbyniwyd peth dystiolaeth gadarnhaol am yr offer ymchwil defnyddiwyd yn yr astudiaeth.

Canfyddiad arall o'r astudiaeth yw tystiolaeth wrthgyferbyniol tuag at yr hyn cydnabyddai Flórez a Sammons (2013, t.7) am y diffyg amser darparai athrawon i ddisgyblion ateb cwestiynau. Pan ofynnwyd i'r disgyblion yn y cyfweiliadau am eu barn ar faint o amser darparai'r athrawes iddynt ateb ar lafar, derbyniwyd atebion o agwedd bositif gan y mwyafrif, gyda'r lleiafrif (33.33%) yn nodi weithiau hoffent dderbyn mwy o amser i feddwl cyn ateb. Ar sail hyn felly awgrymai fod barn gadarnhaol gan ddisgyblion am y ffordd gweithredir y dull AagD o fewn y dosbarth. Yn ogystal, gellir ystyried y cwestiwn yn yr holiadur am y mathau penodol o ddulliau cwestiynu caiff eu defnyddio yn eu gwersi (gweler atodiad 2ch), yn ogystal â'u barn am eu hoff ddull yn y cyfweiliadau (gweler atodiad). Darparai'r atebion i'r cwestiynau hyn dystiolaeth fanylach i gwestiwn yr astudiaeth trwy awgrymu pa ddulliau cwestiynu llafar sydd well gan ddisgyblion.

Roedd yr ymateb cyffredinol i'r holiaduron a chwestiynau cyfweiliad yn bositif, gyda deuddeg holiadur yn cael eu cwblhau fel y cynlluniwyd. Er hyn, rhaid cydnabod y diffyg ymatebiad i ddau gwestiwn yn benodol yn yr holiadur dosbarthwyd i'r disgyblion. Pan ofynnwyd pa mor aml gofynnai'r athrawes gwestiynau llafar iddynt, atebodd pump (41.66%) eu bod yn ansicr ac atebodd dau (16.66%) yr opsiwn o 'arall'. Wrth ystyried argymhellid Leeuw et al (2008, tud. 5) gellir o bosib fod wedi osgoi hyn rhag digwydd pe baent wedi cynnal cyn-brawf i sicrhau fod y cwestiynau'n ddealladwy i gyfranogwyr. Gall hyn felly fod yn fater pwysig i ystyried mewn astudiaethau dilynol, er mwyn goresgyn problemau a achosai cyfranogwyr i gamddeall cwestiynau (Fink, 2015, tud. 161). Yn gysylltiedig, argymhellir i gynnal astudiaethau pellach gyda sampl yn fwy mewn nifer ac amrywiaeth er mwyn derbyn canlyniadau mwy cynrychioladwy i alluogi cymhwyso i boblogaeth fwy eang (Ponto, 2015 ; Omair, 2014).

Wrth ddod i gasgliad am ganfyddiadau'r astudiaeth gwelir bod nifer o agweddau i gymryd mewn i ystyriaeth er mwyn ateb y cwestiwn dan sylw, am farn athrawon a disgyblion blwyddyn 6 am y defnydd o gwestiynu llafar fel strategaeth o AagD yn y dosbarth. Gyda'r rhagdybiaeth y bysai canlyniadau'r astudiaeth yn awgrymu barn gadarnhaol gan y cyfranogwyr, dilynwyd ymagwedd Fosaig o ymchwilio trwy gynnal cyfweiliadau a holiaduron gyda'r disgyblion er mwyn casglu a deall eu safbwyntiau gwahanol (Greenfield, 2011) tra darparwyd holiadur yn unig i'r athrawes.

Derbyniwyd amrywiaeth o ddata gwahanol i ddarparu tystiolaeth gefnogol a gwrthgyferbyniol i'r rhagdybiaeth, gan ddefnyddio codio wrth ddadansoddi'r atebion darparwyd i gwestiynau agored fel ffordd o gategoreiddio i ddarganfod unrhyw batrymau (Coleg Macalaster, 2023). O'r patrymau hyn darganfuwyd agweddau cadarnhaol gan y mwyafrif o ddisgyblion am y ffordd caiff cwestiynu llafar ei weithredu o fewn y dosbarth, megis eu bod yn teimlo wedi eu parchu gan yr athrawes a bod digon o amser ateb yn cael ei ddarparu (gweler atodiad 5). Yn ychwanegol, ceir tebygrwydd rhwng barn y disgyblion a'r athrawes wrth gydnabod nad yw'r athrawes yn meddwl bod angen newid ei ffordd o'i weithredu (gweler atodiad 4g). Ac felly gellir dod at gasgliad bod y mwyafrif o ddisgyblion a staff yn dal barn gadarnhaol am y defnydd o gwestiynu llafar yn y dosbarth.

Er hyn, casgliadau am farn deuddeg disgybl ac un athro yn unig yw'r uchod. Ac felly wrth gydnabod y llenyddiaeth gan Ponto (2015) ac Omair (2014), argymhellir y dylid cynnal yr astudiaeth gyda sampl fwy er mwyn sicrhau canlyniadau mwy cynrychioladwy ; yn ogystal ag ystyried awgrym Sürücü a Maslakci (2020) i ailadrodd gyda'r un cyfranogwyr ar adeg wahanol i sicrhau cysondeb i'r canlyniadau. Gan nad yw'r astudiaeth wedi gwneud hyn, ceir diffyg

dilysrwydd a dibynadwyedd i'r canfyddiadau o agwedd cadarnhaol y disgyblion a staff at y defnydd o gwestiynu llafar yn y dosbarth ac felly dylid cymryd yr argymhellion hyn ymlaen mewn astudiaethau'r dyfodol.

Yn dweud hynny, mae'r canfyddiadau sydd wedi dod o'r astudiaeth hyn dal wedi datblygu fy ymarfer personol, yn unol gyda chwrdd ag ambell i safon SAC a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (2020). Er enghraifft mae fy nealltwriaeth bersonol o'r defnydd o gwestiynu llafar fel strategaeth o AagD yn y dosbarth wedi datblygu trwy ymgysylltu gydag amrywiaeth o ganfyddiadau mewn llenyddiaeth amrywiol sy'n cwrdd â'r safon SAC o 'Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil. Hefyd, trwy gael disgyblion fel cyfranogwyr, darparodd safbwyntiau gwahanol i mi gymryd mewn i ystyriaeth wrth i mi weithredu'r strategaeth, gan gwrdd â'r safon SAC o 'wrandu ar farn disgyblion'.

Llyfryddiaeth

Adler, K. et al (2019) '*Focus Group Interviews in Child, Youth, and Parent Research : An Integrative Literature Review*'

Ar gael yn : <https://journals.sagepub.com/doi/pdf/10.1177/1609406919887274>

Cyrchwyd : 11/5/23

Atkinson, C. (2019) Ethical complexities in participatory childhood research : Rethinking the 'least adult role'

Ar gael yn : <https://core.ac.uk/download/pdf/187119149.pdf>

Cyrchwyd : 11/5/23

Aziza, M. (Mehefin 2021) '*A Teacher Questioning Activity : The Use of Oral Open-ended Questions in Mathematics Classrooms*'. Qualitative Research in Education

Ar gael yn : <https://hipatiapress.com/hpjournals/index.php/qre/article/download/6475/3324>

Cyrchwyd : 10/5/23

BERA (13 Awst 2018) '*Ethical Guidelines for Educational Research, fourth edition*'

Ar gael yn : <https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research2018-online>

Cyrchwyd : 7/5/23

Black, P. & Wiliam, D. (1998) '*Inside the Black Box : Raising Standards Through Classroom Assessment*'

Ar gael yn : <https://www.researchgate.net/profile/Dylan-Wiliam/publication/>

Cyrchwyd : 10/5/23

Bland, L.M. & Gareis, C.R (2018) '*Performance Assessments : A Review of Definitions, Quality Characteristics and Outcomes Associated with Their Use in K-12 Schools*'

Ar gael yn : <https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ1174728.pdf>

Cyrchwyd : 9/5/23

Blaxter, L., Hughes, C. & Tight, M. (2006) '*How to Research*'. 3ydd arg. Berkshire : Open University Press.

Ar gael yn : http://abcreorg.weebly.com/uploads/9/9/8/2/9982776/how_to_research.pdf

Cyrchwyd : 11/5/2023

Çakır, H. & Cengiz, Ö. (2016) '*The Use of Open Ended versus Closed Ended Questions in Turkish Classrooms*'

Ar gael yn : https://www.scirp.org/html/3-1640480_64807.htm

Cyrchwyd : 3/1/23

Cambridge assessment (2019) '*Assessment for learning*'

Ar gael yn :

<https://www.cambridgeinternational.org/Images/271179-assessment-for-learning.pdf>

Cyrchwyd : 10/5/23

Christensen, P & James, A. (2008) '*Research with Children*' 2il arg. Oxon : Routledge.

Clark, A. (2005) 'Ways of seeing: using the Mosaic approach to listen to young children's perspectives', yn Clark, A., Kjørholt and Moss, P. (eds.) *Beyond Listening. Children's perspectives on early childhood services*. Bristol: Policy Press, pp. 29–49.

Cyrchwyd : 10/5/23

Codó, E. (2009) 'Interviews and Questionnaires' yn Wei, L. a Moyer, M. G. *'The Blackwell Guide to Research Methods in Bilingualism and Multilingualism'* Yr Almaen : Wiley.

Ar gael yn :

https://www.google.co.uk/books/edition/The_Blackwell_Guide_to_Research_Methods/vjHffCDobIMC?hl=en&gbpv=1

Cyrchwyd : 11/5/23

Coe, R., Rauch, C., Kime, S. & Singleton, D. (Mehefin 2020) '*Adolygiad o Dystiolaeth*'

Ar gael yn : <https://2366135.fs1.hubspotusercontent->

na1.net/hubfs/2366135/GTT%20Evidence%20Review%20Welsh.pdf

Cyrchwyd : 4/5/23

Coleg Macalaster (13 Ionawr 2023) *'What is Research Data?'*

Ar gael yn : <https://libguides.macalester.edu/c.php?g=527786&p=3608639>

Cyrchwyd : 12/5/23

Dillon (1983) *Teaching and the art of questioning*

Ar gael yn : <https://files.eric.ed.gov/fulltext/ED235133.pdf>

Cyrchwyd : 10/5/23

Estyn (Gorffennaf 2018) *'Asesu ar gyfer Dysgu a medrau meddwl'*

Ar gael yn : <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/asesu-ar-gyfer-dysgu-medrau-meddwl>

Cyrchwyd : 4/5/23

Fabrigar, L.R. a Wegener, D.T (2015) 'Conceptualizing and evaluating the replication of research results'

Ar gael yn :

<https://reader.elsevier.com/reader/sd/pii/S0022103115000967?token=B7D6111229C569FE7F7149C5ABBB432ED9A8B0AAA7659B3AE96ACD96258F6B310C1F17B2484FD36544F60B239A3BE259&originRegion=eu-west-1&originCreation=20230512010153>

Cyrchwyd : 12/5/23

Flòrez, M. & Sammons, P. (2013) 'Assessment for learning : effects and impact'

Ar gael yn : <https://files.eric.ed.gov/fulltext/ED546817.pdf>

Cyrchwyd : 30/1/23

Frey, B., Schmitt, V.L & Allen, J.P (2012) *'Defining Authentic Classroom Assessment'*

Ar gael yn :

<https://scholarworks.umass.edu/cgi/viewcontent.cgi?article=1245&context=pares>

Cyrchwyd : 9/5/23

Fink, A. (19 Rhagfyr 2015) *'How to Conduct Surveys'*

Ar gael yn :

<https://www.google.co.uk/books/edition/How to Conduct Surveys/RI12CwAAQBAJ?hl=en&qbpv=0>

Cyrchwyd : 17/3/23

Greenfield, C. (3 Medi 2011) *'Personal reflection on research process and tools : Effectiveness, highlights and challenges in using the Mosaic Approach'*

Ar gael yn : <https://journals.sagepub.com/doi/pdf/10.1177/183693911103600314>

Cyrchwyd : 10/5/23

Higgins, S., Major, L.E & Coe, R. (2017) *'What works and what doesn't'*

Ar gael yn :

https://www.aeuvic.asn.au/sites/default/files/PV_11_3_Complete_WEB.pdf#page=11

Cyrchwyd : 10/5/23

Hill, J.B. (2016) *'Questioning Techniques : A Study of Instructional Practice;*

Ar gael yn :

<https://www.tandfonline.com/doi/epdf/10.1080/0161956X.2016.1227190?needAccess=true&role=button>

Cyrchwyd : 10/5/23

Leeuw, E.D (2008) *'International Handbook of Survey Methodology'* Efrog Newydd : Taylor and Francis Group

Ar gael yn : [https://www.routledge.com/International-Handbook-of-Survey-Methodology/Hox-Dillman-de-](https://www.routledge.com/International-Handbook-of-Survey-Methodology/Hox-Dillman-de-Leeuw/p/book/9780805857528?_gl=1*t9gztu*_ga*MTE4NjU5NTgwMy4xNjgzODE4Njly*_ga_OHYE8YG0M6*MTY4MzgZnJEWMy4zLjEuMTY4MzgZnJExMS4wLjAuMA..#)

[Leeuw/p/book/9780805857528?_gl=1*t9gztu*_ga*MTE4NjU5NTgwMy4xNjgzODE4Njly*_ga_OHYE8YG0M6*MTY4MzgZnJEWMy4zLjEuMTY4MzgZnJExMS4wLjAuMA..#](https://www.routledge.com/International-Handbook-of-Survey-Methodology/Hox-Dillman-de-Leeuw/p/book/9780805857528?_gl=1*t9gztu*_ga*MTE4NjU5NTgwMy4xNjgzODE4Njly*_ga_OHYE8YG0M6*MTY4MzgZnJEWMy4zLjEuMTY4MzgZnJExMS4wLjAuMA..#)

Cyrchwyd : 11/5/23

Leeuw, E.D (2011) *'Improving Data Quality when Surveying Children and Adolescents : Cognitive and Social Development and its Role in Questionnaire Construction and Pretesting'*

Ar gael yn :

https://www.aka.fi/globalassets/tietysti1.fi/awanhat/documents/tiedostot/lapset/presentations-of-the-annual-seminar-10-12-may-2011/surveying-children-and-adolescents_de-leeuw.pdf

Cyrchwyd : 11/5/23

Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2010) *Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth*

Ar gael yn : <https://hwb.gov.wales/storage/283b9318-dcf7-402d-b39a-67dee70efe18/sut-i-ddatblygu-meddwl-ac-asesu-ar-gyfer-dysgu-yn-yr-ystafell-ddosbarth.pdf>

Cyrchwyd : 5/5/23

Llywodraeth Cymru (2020) *'Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth'*

Ar gael yn : <https://hwb.gov.wales/api/storage/ae783486-0851-4ec6-9e73-2e2b99515cf5/safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-pdf-rhyngweithiol-ar-gyfer-cyfrifiaduron-personol.pdf>

Cyrchwyd : 15/5/23

Llywodraeth Cymru (30 Ionawr 2023) *'Addysgeg'*

Ar gael yn : <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/addysgeg/>

Cyrchwyd : 5/5/23

Nappi, J.S (2017) *The Importance of Questioning in Developing Critical Thinking Skills'*.

Texas : The Delta Kappa Gamma Bulletin.

Ar gael yn :

https://www.dkg.is/static/files/skjol_landsamband/bulletin_grein_jona.pdf#page=30

Cyrchwyd : 5/5/23

Nijhawan, L.P. et al (2013) *'Informed consent : Issues and challenges'*

Ar gael yn : [blob:https://www.proquest.com/cdb2a952-8414-452b-937d-5bd376f9005a](https://www.proquest.com/cdb2a952-8414-452b-937d-5bd376f9005a)

Cyrchwyd : 12/5/23

Omair, A. (Hydref 2014) *'Sample Size estimation and sampling techniques for selecting a representative sample'*

Ar gael yn :

https://d1wqtxts1xzle7.cloudfront.net/45012380/Sample_size_estimation_and_sampling_tec_h20160423-30071-1jt331c-libre.pdf?1461411036=&response-content-

Cyrchwyd : 11/5/23

Pannucci, C. J. a Wilkins, E.G. (Awst 2010) '*Identifying and Avoiding Bias in Research*'

Ar gael yn : <https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC2917255/>

Cyrchwyd : 11/5/23

Pinter, A. a Kuchah, K. (10 Mai 2021) *Ethical and Methodological Issues in Researching Young Language Learners in School Contexts* Deyrnas Unedig : Channel View Publications.

Ponto, J. (1 Mawrth 2015) '*Understanding and Evaluating Survey Research*'

Ar gael yn : <https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC4601897/>

Cyrchwyd : 11/5/23

Punch, S. (2002) '*Research with Children. The same or different from research with adults*' Llundain : SAGE Publications.

Ar gael yn : <https://journals.sagepub.com/doi/pdf/10.1177/0907568202009003005>

Cyrchwyd : 11/5/23

Ramsey, I. et al (Mai 1990) '*Questioning : An Effective Teaching Method*'. The Clearing House.

Ar gael yn : <https://www.jstor.org/stable/30188543>

Cyrchwyd : 10/5/23

Rowley, J. (2014) '*Designing and Using Research Questionnaires*'

Ar gael yn : <https://e-space.mmu.ac.uk/579515/1/Designing%20and%20using%20Research%20QuestionnairesREV18042013.pdf>

Cyrchwyd : 10/5/23

Silvia, P.J & Cotter, K.N (2021) '*Collecting Data*'

Ar gael yn : <https://psycnet.apa.org/fulltext/2021-23207-005.pdf>

Cyrchwyd : 11/5/23

Simundic, A. (10 Ionawr 2013) '*Bias in research*'

Ar gael yn : <https://hrcak.srce.hr/file/142923>

Cyrchwyd : 11/5/23

Samuels, P. (Ebrill, 2020) '*A Really Simple Guide to Quantitive Data Analysis*'

Ar gael yn :

https://www.researchgate.net/publication/340838762_A_Really_Simple_Guide_to_Quantitative_Data_Analysis

Cyrchwyd : 12/5/23

Stahl, R.J (1994) ' "*Think Time*" and "*Wait Time*" Skillfully in the Classroom'

Ar gael yn : <https://files.eric.ed.gov/fulltext/ED370885.pdf>

Cyrchwyd : 10/5/23

Sürücü, L. & Maslakci, A. (2020) '*Validity and Reliability in Quantitive Research*'

Ar gael yn : <https://www.bmij.org/index.php/1/article/view/1540/1365>

Cyrchwyd : 11/5/23

Takayoshi, P & Van Ittersum, D. (19 Gorffennaf 2018) *'Wait Time : Making Space for Authentic Learning'*

Ar gael yn : <https://www-s3-live.kent.edu/s3fs-root/s3fs-public/file/Teaching%20Tools%20in%20a%20Flash%20-%20Wait%20Time%20-%20Final.pdf?VersionId=7KujdZVi8Rs90gzq5tuka6TlpY2WXjz8>

Cyrchwyd : 10/5/23

Thornberg, R. (2009) 'School democratic meetings : Pupil control discourse in disguise'

Ar gael yn : <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0742051X09002315>

Cyrchwyd : 11/5/23

Wiliam, D. (12 Ebrill 2011) *'What is assessment for learning?'*

Ar gael yn :

<https://reader.elsevier.com/reader/sd/pii/S0191491X11000149?token=66F0B42E6D7DA1CDED3BBEB8A2B3A7B29711D90B27BC00158651AE344FB629179B210F3F38B3FA7F7FDC51148CFAC33F&originRegion=eu-west-1&originCreation=20230510100436>

Cyrchwyd : 10/5/23

Wolf, C. et al (24 Mawrth 2016) *'The SAGE Handbook of Survey Methodology'* India : SAGE Publications.

